| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD i** | **CYFARFOD BWRDD Y COMISIYNWYR** |
| **DYDDIAD** | 26ain Ebrill 2011 |
| **PWNC** | Polisi Corfforaethol Gwiriadau Troseddol (drafft)<br><br>Mabwysiadu'r Polisi fel a ddengys isod |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO** | Y Comisiynwr Mr Mick Giannasi |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | Lynn Ball – Cyfarwydwr Gwasanaeth Cyfreithiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitor |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Uwch Gyfreithiwr O.R.Hughes (Gwasanaethau Plant) |

**1. Cadarnhewch natur yr adroddiad os gwelwch yn dda trwy glicio un o'r blychau isod**

Er gwybodaeth……….. ☐

Gweithredol……….…... ☒

Strategol………………. ☐

**2. Rheswm/Rhesymau pam fod angen penderfyniad gan y Comisiynwyr**

a) Atodaf gopi o fy adroddiad i'r Cyngor Llawn 8fed Mawrth 2011. Penderfynodd y Cyngor beidio mabwysiadu'r Polisi a gohirio trafodaeth bellach tan ei gyfarfod nesaf.

b) Atodaf gopi llythyr y Swyddog Monitro at holl aelodau'r Cyngor 18fed Mawrth 2011. Mae'n cofnodi'r pwyntiau a waned gan yr aelodau, yr atebion a roddwyd a barn y Swyddog Monitro.

c) Atodaf ganlyniad ymgynghoriad gyda'r Arweinyddion Grwpiau, pob aelod etholedig, Y Pwyllgor Safonau. Mae'r Polisi wedi'w gymeradwyo gan Swyddfa y Comisiynydd Gwybodaeth, cadarnhaodd ar 11eg Ebrill 2011 na fydd neb o'i swyddfa ar gael i fynychu cyfarfod o'r Cyngor. Bwriedir cynnig sesiwn hyfforddiant/ymwybyddiaeth i'r aelodau cyn Cyngor llwn nesaf

| 3. Crynodeb o'r adroddiad |
|---|
| a) Does dim Polisi SCT Corfforaethol gan y Cyngor. Mae hyn yn creu risg annerbyniol o dramgwyo troseddol a sifil fel cyflogwr a phrynwr gwasanaethau i blant ac oedolion bregus ac fel deilydd data.<br><br>b) Mae'r Polisi'n rheoli derbyn a phrosesu gwybodaeth SCT gogyfer a staff parhaol, dros dro, contractwyr annibynol, gwirfoddolwyr, aelodau etholedig a chyfetholedig. Mae'n gyson gyda holl ofynion Deddf Amddiffyn Data 1998 ac wedi ei gymeradwyo gan Swyddfa y Comisiynydd Gwybodaeth.<br><br>c) Mae'n gyson gyda polisiau eraill y Cyngor ac wedi derbyn ymgynghoriad mewnol ac allanol.<br><br>d) Mae'n gosod canllaw cyson er mwyn sefydlu ymateb corfforaethol cyson i asesu risg pob sefyllfa o gyswllt sylweddol gyda plant a phobol bregus.<br><br>e) Mae Mesur Awdurdod Lleol (Cymru) 2009 Cyngor Sir Ynys Môn 16fed Mawrth 2011 a'r Cyfarwyddid 2011 yn galluogi'r Comisiynwyr fabwysiadu'r rhannau hynny o'r Polisi sy'n ymwneud gyda staff parhaol, dros dro, contractwyr annibynol a gwirfoddolwyr.<br><br>f) Dim ond y Cyngor llawn all fabwysiadu'r argymhelliad fod aelodau etholedig a chyfetholedig yn ymgymeryd a gwiriad uwch SCT. |

| 4. Argymhelliad/Argymhellion a'r rhesymau |
|---|
| Gan O.R.Hughes Uwch Gyfreithiwr (Gwasanaethau Plant) a'r Swyddog Monitro :-<br>a) Fod y Comisiynwyr yn penderfynu mabwysiadu'r Polisi parthed staff parhaol, dros dro, contractwyr annibynol a gwirfoddolwyr.<br>b) Bod y Comisiynwyr yn argymell fod y Cyngor llawn yn mabwysiadu'r Polisi parthed aelodau etholedig a chyfetholedig oherwydd :<br><br>i) Fod a.80 Deddf Awdurdod Lleol 1972 yn gwahardd person rhag derbyn swyddogaeth os ydynt wedi ei dedfrydu I gyfnod o garchar o 3 mis neu gyfnod wedi ei ohirio o 3 mis yn y 5 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd does dim gwiriad o'r fath.<br><br>ii) Mae disgwyl i aelodau etholedig ymweld a chartrefi'r Cyngor e.e plant a gofal. Mae hyn yn gwirio dyletswyddau'r Cyngor tuag at pobol bregus a dylid fod yn medru ymgymeryd a'r gwaith mewn fordd saff i bawb.<br><br>iii) Mae gan aeoldau etholedig rôl ganolog er mwyn gosod cyllideb a pholisiau sy'n gwasanaethu pobol bregus.<br><br>iv) Cymhellir aelodau etholedig i wasanaethu fel llywodraethwyr ysgolion. Mae'r Cyfarwyddwr Addysg wedi atgoffa pob ysgol yn ddiwedar am yr angen i bob ysgol sefydlu gweithdrefnau amddiffyn plant penodol gan gynnwys y gallu i fynnu fod pob llywodraethwr yn ymgymeryd a gwiriad SCT. Mae methiant ysgolion i wneud hyn wedi derbyn beirniadaeth diweddar mewn achos ysgol |

yn ardal Y Rhyl ble cafwyd taw ond 8 o 15 llywodraethwr oedd gyda gwiriad SCT.

v) Fe ymgymerwyd a gwiriadau SCT cychwynol o aelodau yn 2008, roedd yr ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan ond fe gosodd gwestiynau ynghylch prosesu SCT gan wybodaeth a ddatgelwyd. Ni gymerodd pob aelod ran yn y broses sy'n golygu nad yw proses gwirfoddol yn well na Pholisi ffurfiol.

vi) Mae'r cyngor dan ymyrraeth gan Cynulliad Cymru ar seiliau yn codi o gamymddwyn ar ran aelodau. Byddai mabwysiadu'r Polisi yn arwydd o gydnabyddiad pwysigrwydd rôl aelodau yn eu cymdeithas. Eu body n gymwys i ymgymeryd a'r swydd, gellir eu ymddiried i dderbyn gwybodaeth gyfrin gan eu hetholwyr a'u bod o gymeriad da.

vii) Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i gyrff allanol ac fe ddylai nhw fedru dibynu'n llwyr ar allu'r aelod i ymgymeryd a phob elfin o'r penodiad.

viii)

**5. Opsiynau eraill a'r rheswm/rhesymau dros eu gwrthod**

Efallai bydd angen adolygu'r Polisi yn dilyn newidiadau yn y gyfraith e.e y Bil Rhyddid. Tynwyd cyfraith Fetio a Gwahardd yn ei ôl rhag dod I rym yn Hydfref 2010 oherwydd pryderon ei fod yn lawdrwm, yn enwedig tuag at gwirfoddolwyr a rhieni. Mae;r Polisi drafft yn sefydlu asesiad risg penodol I bob achos unigol a bydd ond rhaid wrth wiriad SCT os oes cyswllt sylweddol heb ei oruwchwilio gyda plant a phobol bregus – felly ni fyddai rhaid with wiriad ar riant yng nghwmni athrawon ar daith ysgol ond byddai angen gwiriad petai'n rhoi gymorth un i un i blentyn ifanc mewn amgylchedd caedig.

**6. Ymgynghori**

6.1 Cyllid/Adran 151…….............................. ☒ do……….☐ naddo

6.2 Swyddog Cyfreithiol/Monitro…………..... ☒ do……….☐ naddo

6.3 Adnoddau Dynol………….......................... ☒ do……….☐ naddo…….☐ amherth

6.4 Gwasanaethau Eiddo……………………..... ☐ do……….☐ naddo…….☒ amherth

6.5 Uned Gyfathrebu……............................... ☐ do……….☐ naddo

6.6 Rhai eraill yr ymgynghorwyd â nhw (yn cynnwys aelodau): Rheolwr Gyfarwyddwr Gweithredol, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol, pob aelod etholedig a swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

| 7. Unrhyw faterion Fframwaith Polisi |
|---|
| Na |

| 8. Materion Amgylcheddol |
|---|
| A yw'r mater / eitem yn ymwneud â:<br><br>1. Bywyd gwyllt (bioamrywiaeth) o dan Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006* ………….☐ do……. ☐ naddo ….☒ amherth<br><br>2. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn o dan Rhan 85 o'r Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000** ……..☐ do…….☐ naddo …. ☒ amherth<br><br>(*Gall Gynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol roi cyngor: est. 2470)<br>(**Gall Swyddog Cefn Gwlad ac AHNE roi cyngor: est. 2429)<br>Nodiadau |

| 9. Papurau cefndirol |
|---|
| 1. Y Polisi<br>2. Canlyniad y Ymghynghoriad<br>3. Adroddiad i Cyngor 8.3.2011<br>4. Cofnodion drafft y Cyngor<br>5. Llythyr 18.03.2011 |

# Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council

# POLISI GWIRIADAU TROSEDDOL DRAFFT /

# CRIMINAL RECORDS POLICY

Mae'r Polisi hwn yn effeithio i) staff parhaol a dros dro ii)contractwyr annibynnol iii) aelodau etholedig a chyfetholedig iv)gwirfoddolwyr /
This Policy applies to i) permanent and temporary staff ii) independent contractors iii) elected and co-opted members and iv) volunteers.

| | |
|---|---|
| *Paratowyd gan / Prepared by:* | *O.R.Hughes* |
| *Arweinyddion Grwpiau / Group Leaders* | *07.12.2010* |
| *Pwyllgor Safonau / Standards Committee* | *14.12.2010* |
| *Holl aelodau etholedig / every Elected Member* | *12.01.2011* |
| *CyngorLlawn / Full Council:* | *08.03.2011* |
| *Comisiynwyr/ Commissioners* | |
| *Gweithredwyd / Implemented:* | |

CC-014538-ORH/112546 11.02.2011

# Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council

Cynnwys / Contents:


| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwyniad / Introduction | tud/page 3 |
| A | Y Gyfraith / Law | tud/page 4 |
| B | Archwiliadau a diffiniadau / Checks and definitions | tud/page 4 |
| C | Gweithdrefnau / Procedure | |
| C1 | Cyflogaeth / Employment | tud/page 6 |
| C2 | | |
| C3 | Asiantaeth / Agency | tud/page 8 |
| C4 | Aelodau / Members | tud/page 8 |
| C5 | Gwirfoddolwyr / Volunteers | tud/page 9 |
| Atodiadau /Appendices | | |
| A | Ffurflen Asesu Risg / Risk Assessment Form | tud/page 11 |
| B | Cyn-droseddwyr / Ex-offenders | tud/page 13 |
| C | Cadw / Storage | tud/page 15 |
| D | Rhestr Wirio ar ôl darganfod trosedd / Checklist to apply when check reveals an offence | tud/page 17 |

## POLISI GWIRIADAU TROSEDDOL

### Cyflwyniad

Mae pob Awdurdod Lleol yn ymwneud yn agos â nifer o agweddau o fywyd yn y gymuned. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r gymuned yn ddigon tebol i arwain eu bywydau a bywydau eu teuluoedd yn ddiogel. Caiff uniondeb y gymuned ei ddiogelu gan ddeddfau a dyletswyddau a orfodir ar asiantaethau statudol i gynnal ymchwiliadau ac i warchod unigolion rhag niwed

Mae dyletswydd foesol ar y gymuned yn ei chyfanrwydd tuag at unigolion sydd ddim yn gallu sicrhau eu diogelwch eu hunain, mae'r rhan fwyaf o'r bobl hyn, a ddiffinnir yn y polisi hwn fel "pobl fregus", yn derbyn gwasanaethau gan Gyngor Sir Ynys Môn ("yr Awdurdod Lleol"). Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod y sawl y mae'n ei gyflogi, y sawl sy'n ei gynrychioli a'r sawl sy'n ymgymryd â rôl sensitif o fewn yr awdurdod, yn addas. Mae hyn yn fodd i ddarparu gwasanaethau yn ddiogel i gleientiaid ac i ennyn hyder y cyhoedd yn uniondeb yr Awdurdod Lleol.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ei gofrestru i gynnal gwiriadau gyda'r Swyddfa Cofnodiadau Troseddol sy'n ychwanegol at wiriadau eraill i gefndir, cymeriad ac archwiliadau eraill. Mae pob Cyfadran yn yr Awdurdod ("Cyfadran") yn gyfrifol am weithredu'r polisi corfforaethol hwn a gall ychwanegu ato ganllawiau mewnol ychwanegol i staff sy'n ymgymryd â'r broses wirio - er enghraifft gwneud gwiriad cefndir gydag unrhyw gorff proffesiynol y mae'r ymgeisydd yn aelod ohono.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i i) staff parhaol a dros dro; ii) contractwyr annibynnol; iii) aelodau etholedig a chyfetholedig a iv) gwirfoddolwyr.

SYLWER:
Efallai y bydd gan berson a effeithir gan y Polisi hwn wiriad SCT cyfredol i'r lefel Uwch neu'r lefel Safonol angenrheidiol. Mae'r Awdurdod Lleol yn caniatáu i'r Gyfadran berthnasol ddisgresiwn i dderbyn y gwiriad SCT gwreiddiol ynghyd â'r dystiolaeth angenrheidiol i gadarnhau pwy yw'r

## CRIMINAL RECORDS POLICY

### Introduction

All Local Authorities are closely involved with many aspects of life in the community. Most members of the community are capable of conducting their life, and that of their families, safely. The integrity of the community is protected by laws and duties imposed upon statutory agencies to investigate and protect individuals from harm.

The community as a whole has a moral duty towards individuals who are not capable of ensuring their own safety, most of these people, defined in this Policy as "vulnerable people" receive services from Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council ("the Local Authority"). The Local Authority has a duty to ensure the suitability of those employed, those representing it and those undertaking a sensitive role within it. This enables safe delivery of services to clients and public confidence in the integrity of the Local Authority.

The Local Authority is registered to undertake checks with the Criminal Records Bureau ("CRB") which supplement background, character and other vetting checks. Each Directorate within the Authority ("Directorate") is responsible for implementing this corporate policy and may supplement it with additional internal guidance to staff undertaking the checking process – for example instigating a background check with any professional body with which the applicant is a member.

This policy applies to i) permanent and temporary staff ii) independent contractors iii) elected and co-opted members and iv) volunteers.

NOTE:
A person affected by this Policy may already have a current CRB check to the necessary Enhanced or Standard level. The Local Authority allows the relevant Directorate discretion to accept production of the original CRB check together with the necessary

person (gweler C1d isod) ar yr amod nad yw'r gwiriad SCT yn fwy nag 1 oed. Nid yw hyn yn gwneud i ffwrdd â'r angen i adnewyddu gwiriad SCT o'r fath yn unol â'r polisi hwn.

identification evidence (see C1d below) provided the CRB is no more than 1 years old. This does not obviate the need to undertake a renewal of such a CRB check in accordance with this Policy.

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol perthnasol, gan gynnwys y Côd Ymarfer ar gyfer Personau cofrestredig ac eraill sy'n derbyn Gwybodaeth Datgeliad ("Côd Ymarfer SCT") a gyhoeddwyd gan yr SCT yn Ebrill 2009 mewn diwygiad www.disclosure.gov.uk

Bydd y Cyfarwyddwr sy'n cyflogi dilyn Polisi Recriwtio a Dethol gwasanaeth Adnoddau Dynol (adolygiad cyfredol Rhagfyr 2010).

This policy is based on relevant current legislation and guidance, including the Code of Practice for registered Persons and other recipients of Disclosure Information ("CRB Code of Practice") published by the CRB April 2009 revision www.disclosure.gov.uk

The employing Directorate will have regard to the Human Resources Services' Recruitment and Selection Policy (current revision December 2010).

## A. Y GYFRAITH

- Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974
- Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975
- Deddf yr Heddlu 1997
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Diogelu Plant 1999
- Deddf Safonau Gofal 2000
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

## A. LAW

- Rehabilitation of Offenders Act 1974
- Rehabilitation of Offenders Act 1974 (Exceptions) Order 1975
- Police Act 1997
- Data Protection Act 1998
- Protection of Children Act 1999
- Care Standards Act 2000
- Freedom of Information Act 2000

## B. Y MATHAU O WIRIADAU SCT – CYMERWYD O GÔD YMARFER YR SCT

### 1. Gwiriad Safonol

"Mae rhain yn bennaf ar gyfer swyddi sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant neu oedolion bregus. Efallai y cynhelir gwiriadau safonol ar bobl sy'n mynd i mewn i rai proffesiynau megis aelodau o'r proffesiynau cyfreithiol a chyfrifeg. Mae'r gwiriad Safonol yn cynnwys manylion am yr holl euogfarnau sydd ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu gan gynnwys yr euogfarnau cyfredol a rhai sydd wedi dod i ben ynghyd â manylion ynghylch unrhyw rybuddion, geryddau neu rybuddion terfynol. Os yw swydd yn ymwneud â gweithio gyda phlant, yna bydd gwiriad yr SCT yn nodi a oes gwybodaeth ar dair rhestr gan y llywodraeth o'r rheini sydd wedi eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant neu bobl fregus."

## B. THE TYPES OF CRB CHECKS – TAKEN FROM THE CRB CODE OF PRACTICE

### 1. Standard check

"These are primarily for posts that involve working with children or vulnerable adults. Standard checks may also be issued for people entering certain professions, such as members of the legal and accountancy professions. The Standard check contains details of all convictions held on the Police National Computer ("PNC") including current and 'spent' convictions as well as details of any cautions, reprimands or final warnings. If a position involves working with children, the CRB check will indicate whether information is held on three government lists of those who are banned from working with children or the vulnerable."

## 2. Gwiriad Uwch

"Mae'r rhain ar gyfer swyddi sy'n golygu cyswllt llawer ehangach gyda phlant neu oedolion bregus. Yn gyffredinol, bydd y math o waith yn ymwneud â gofalu, goruchwylio, hyfforddi neu bod yn hollol gyfrifol am bobl o'r fath a hynny'n rheolaidd. Mae enghreifftiau yn cynnwys Athrawon, Arweinydd Sgowtiaid neu Geidiaid. Caiff Datgeliadau Uwch hefyd eu gwneud ar gyfer rhai dibenion statudol megis trwyddedau gêm a loteri.

Mae'r lefel hon o wiriad yn golygu gwirio ar lefel uwch na'r rheini sy'n cael eu cynnal ar gyfer y SCT Safonol - gwiriad ar gofnodiadau'r heddlu lleol. Lle mae cofnodiadau'r heddlu lleol yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol a all fod yn berthnasol i'r swydd y mae'r ymgeisydd yn cael ei ystyried ar ei chyfer, gall Prif Swyddog yr Heddlu ryddhau gwybodaeth ar gyfer ei chynnwys mewn gwiriad uwch".

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Awdurdod Lleol wedi penderfynu y bydd angen gwiriad uwch ar gyfer y cyfan o'r swyddi isod oherwydd y cyswllt uniongyrchol sylweddol gyda phobl fregus neu'r sensitifrwydd penodol sy'n gysylltiedig gyda'u dyletswyddau o fewn yr Awdurdod i) pob aelod o'r Gwasanaethau Cymdeithasol; ii) Tai; iii) Hamdden a iv) Addysg (staff a chontractwyr annibynnol) ac, yn ogystal, v) pob aelod etholedig o'r Awdurdod.

## 3. Sut i benderfynu a oes angen Gwiriad Safonol ynteu Wiriad uwch

a) Staff, Contractwyr Annibynnol a Gwirfoddolwyr:-

Bydd Cyfadrannau'n defnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad A i gynnal asesiad risg ar bob swydd i benderfynu a oes angen gwiriad SCT, ar ba lefel a chan bwy. Caiff hyn ei gofnodi yn yr Adain Adnoddau Dynol.

b) Ni fydd unrhyw un sydd mewn swydd y mae angen gwiriad uwch ar ei chyfer yn cael cyswllt sylweddol heb oruchwyliaeth gyda phobl fregus, gweler nodiadau 3.1.4, 5 a 6.

c) Caiff yr holl wiriadau SCT eu hailgynnal bob 3 blynedd ar gyfer yr holl swyddi hynny y mae angen gwiriadau ar eu cyfer.

## 2. Enhanced check

"These are for posts that involve a far greater degree of contact with children or vulnerable adults. In general the type of work will involve regularly caring for, supervising, training or being in sole charge of such people. Examples include a Teacher, Scout or Guide leader. Enhanced Disclosures are also issued for certain statutory purposes such as gaming and lottery licences.

This level of check involves an additional level of check to those carried out for the Standard CRB - a check on local police records. Where local police records contain additional information that may be relevant to the post the applicant is being considered for, the Chief Officer of Police may release information for inclusion in an Enhanced check."

In addition the Local Authority has decided that the following posts will all require an Enhanced check because of the significant direct contact with vulnerable people or the particular sensitivities involved with their duties within the Authority i) every member of Social Services ii) Housing iii) Leisure and iv) Education (staff and Independent contractors) and also v) every elected member of the Authority.

## 3. How to decide upon a Standard or an Enhanced check

a) Staff, Independent Contractors and Volunteers:-

Directorates will use the checklist in Appendix A to risk assess every post to determine whether, at what level CRB checks will be undertaken and by whom. This will be recorded with the Human Resources Section.

b) Anyone undertaking a post subject to an Enhanced check will not have unsupervised significant contact with vulnerable people see notes 3.1.4, 5, and 6.

c) All CRB checks will be repeated every 3 years for all those posts for which checks are required.

d) Efallai y bydd Cyfadrannau'n penderfynu ailgynnal gwiriad SCT yn amlach neu'n newid y math o wiriad a hynny'n unol â'u disgresiwn.
Bydd cyfrifoldeb ar Swyddogion unigol i roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw amgylchiadau sy'n effeithio arnynt a fyddai neu a fyddai'n debygol o gael eu dangos ar y gwiriad SCT. Bydd methiant i hysbysu'r Cyngor yn cael ei ystyried fel mater disgyblu.

**4. Diffiniadau ar gyfer eu defnyddio yn y polisi hwn.**

**"Pobl Fregus"** – mae hyn yn cynnwys pob plentyn ac oedolyn bregus.

a) Mae'r plentyn yn rhywun sydd dan 18 oed (Deddf Plant 1989 a 105 (1)).

b) Diffinnir oedolyn bregus fel oedolyn "sydd angen neu a all fod angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oed neu salwch ac sydd ddim yn gallu neu efallai fydd ddim yn gallu gofalu amdano'i hun neu amdani ei hun neu'n methu gwarchod ei hun yn erbyn niwed sylweddol neu ecsbloetio difrifol" Comisiwn y Gyfraith (o "*Who decides?; Making decisions on behalf of mentally incapacitated adults 1997"* fel y cafodd ei fabwysiadu gan Bolisi a Gweithdrefn Gogledd Cymru ar gyfer diogelu Oedolion Bregus).

**5. Gwybodaeth o'r SCT**

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data 1998 a Chôd Ymarfer SCT ynghylch trin, defnyddio, storio, cadw a chael gwared o wiriadau a gwybodaeth a ddatgelwyd yn y modd cywir. Nodir hyn yn Atodiad C.

**C. GWEITHDREFN**

**C1. Y drefn pan fydd yr Awdurdod Lleol yn recriwtio i swydd sydd angen gwiriad SCT.**

a) Bydd pob swydd y mae angen gwiriad SCT ar ei chyfer yn cael ei hysbysebu fel un sy'n amodol ar wiriad SCT boddhaol. Bydd y pecyn ymgeisio ar gyfer swydd o'r fath yn cynnwys Datganiad Polisi'r Awdurdod ar Recriwtio cyn-

d) Directorates may decide to repeat a CRB check more frequently or change the type of check at their discretion.
It shall be the responsibility of individual Officers to notify the Council of any circumstance affecting them that would, or would be likely to, be demonstrated on the CRB check. Failure to advise the Council will be considered a disciplinary matter.

**4. Definitions for use in this policy**

**"Vulnerable people"** - these comprise all children and vulnerable adults.

a) A child is someone under the age of 18 years old (Children Act 1989 s105 (1).

b) A vulnerable adult are defined as an adult who "is or may be, in need of community care services by reason of mental or other disability, age or illness and who is, or may be, unable to take care of himself or herself, or unable to protect himself or herself against significant harm or serious exploitation" Law Commission (from "Who decides?;Making decisions on behalf of mentally incapacitated adults 1997" as adopted by the North Wales Policy and procedure for the protection of Vulnerable Adults "POVA).

**5. Information from the CRB.**

Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council will comply with the Data Protection Act 1998 and the CRB Code of Practice regarding the correct handling, use, storage, retention and disposal of Checks and Disclosure information. This is set out in Appendix C.

**C. PROCEDURE**

**C1. Recruitment by the Local Authority in a post requiring a CRB check**

a) Every post requiring a CRB check will be advertised as being conditional upon a satisfactory CRB check. The application pack for such a post will include the Authority's Policy Statement on the Recruitment of ex-

Droseddwyr (Atodiad B).

b) Ar gyfer pob swydd sydd angen gwiriad SCT, bydd raid datgelu'r holl droseddau gan gynnwys collfarnau sydd wedi dod i ben, manylion am unrhyw rybuddion neu geryddau. Mae cyflogi yn amodol ar wiriad SCT boddhaol.

c) Bydd Ffurflenni Datgeliadau SCT yn cael eu hanfon unwaith y bydd cynnig o swydd wedi cael ei dderbyn gyda'r nod na fydd cyflogaeth yn cychwyn hyd oni fydd gwiriad SCT boddhaol wedi dod yn ôl.

d) Bydd yr ymgeisydd ar gyfer y swydd yn cadarnhau pwy ydyw drwy ddarparu dogfennau gwreiddiol ar gyfer eu harchwilio a'u copïo. Mae'r canlynol yn hanfodol:

- Tystysgrif Geni
- Tystiolaeth o unrhyw newid enw.
- Pasport neu drwydded yrru cerdyn ffotograff
- 2 ddogfen yn profi'r cyfeiriad cyfredol e.e. biliau gwasanaethau neu ddatganiadau banc/cerdyn credyd.

f) Os ceir oedi gyda derbyn gwiriad SCT, yna bydd y Gyfadran yn penderfynu a fedr drefnu i oruchwylio dyletswyddau'r darpar ddeilydd swydd hyd oni fydd gwiriad SCT boddhaol wedi dod i law. Yn benodol, ni chaniateir cyswllt uniongyrchol sylweddol gyda phobl fregus.

**C2. Cofnodiadau troseddol a ddatgelwyd gan yr ymgeisydd – Gweithwyr sy'n derbyn Cyflog**

a) Ni fydd collfarnau sydd wedi dod i ben/ rhybuddion/neu geryddau o angenrheidrwydd yn gwahardd person rhag cael swydd (Atodiad B).

b) Rhoddir sylw i natur y materion a ddatgelwyd gan yr ymgeisydd yn ei ffurflen gais a pha mor berthnasol ydynt i'r swydd yr ymgeisiwyd amdani. Ystyrir hyn gan swyddogion dynodedig yn y Gyfadran a fyddai'n cyfweld y person ac yn asesu'r risg yn erbyn meini prawf penodol (Atodiad D).

c) Gall methiant i ddatgelu hanes o droseddu yn y gorffennol ar adeg cyflwyno'r cais gael ei ystyried fel ymgais i gael swydd trwy dwyll ac fel

Offenders. (Appendix B).

b) Every post requiring a CRB check will require the disclosure of <u>all</u> offences including spent convictions, details of any cautions, reprimands or warnings. Employment is conditional on a satisfactory CRB check.

c) CRB Disclosure Applications will be submitted once an offer of employment has been accepted with the aim that employment will only commence upon the return of a satisfactory CRB check.

d) The applicant for the post will verify his/her identity by producing **original** documents for inspection and copying. The following are essential;

- Birth certificate
- Evidence of any change of name,
- Passport, or photo card driving licence.
- 2 documents proving current address e.g. utility bills or bank/credit card statements.

f) If there is delay in receiving the CRB check then the Directorate will decide whether it is able to arrange supervision of the prospective post holder's duties until a satisfactory CRB check is received. In particular no significant direct contact with vulnerable people will be allowed.

**C2. Criminal records disclosed by the applicant – Paid Employees**

a) Past convictions/cautions/reprimands or warnings may not necessarily be a bar to obtaining employment (Appendix B).

b) Consideration will be given to the nature of the matters disclosed by the applicant in his/her application form and relevance to the post applied for. This will be considered by designated officers of the Directorate who would interview the person and assess the risk against set criteria (Appendix D).

c) Failure to disclose past criminal history at the application stage may be seen as an attempt to gain employment by deception, and

arfer, bydd yn arwain at dynnu'n ôl unrhyw gynnig o waith.

d) Bydd methiant i ddychwelyd Ffurflen Datgeliad SCT wedi'i chwblhau'n gywir (ynghyd â'r dogfennau sydd eu hangen i bwrpas profi pwy yw'r person) o fewn cyfnod amser a bennwyd gan y swyddog a ddynodwyd i oruchwylio'r broses recriwtio, yn arwain at dynnu'n ôl unrhyw gynnig o waith.
**Mae gwiriad SCT yn un rhan o broses recriwtio gadarn ac nid yw'n gwneud i ffwrdd â'r angen am broses ddethol drwyadl sy'n briodol i lefel y swydd, siecio tystlythyrau gwaith a phersonol ac unrhyw fylchau mewn cyflogaeth.**

will normally result in the withdrawal of any offer of employment.

d) Failure to return a correctly completed CRB Disclosure Application (together with the documentation required for identification purposes) within a timescale set by the officer designated to oversee the recruitment process will lead to a withdrawal of any offer of employment.
**A CRB check is one part of a sound recruitment process and does not obviate the need for a thorough selection process appropriate to the level of the post, the checking of work and personal references and any gaps in employment.**

**C3. Contractwyr Annibynnol a mathau eraill o Weithwyr Asiantaeth ("y contractwr") sy'n gwneud gwaith ar ran yr Awdurdod Lleol.**

a) Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r gwaith fydd yn cael ei wneud (yr un modd â staff cyflogedig – gweler C.1.a) a bydd yr hysbyseb a'r contract gwaith yn datgan a oes angen gwiriad SCT safonol neu uwch boddhaol. Ni fydd y gwiriad SCT ragor na 2 oed.

b) Bydd y contractwr yn cyflwyno gwiriad SCT gwreiddiol ynghyd â thystiolaeth o bwy ydyw (fel a nodir uchod yn C.1.e) ar gyfer pob person a fydd yn gwneud y gwaith. Bydd y Gyfadran yn cadw copïau yn ddiogel.

c) Bydd contractwr gyda hanes o droseddu sy'n dymuno gweithio gyda phobl fregus yn agored i'r un broses â honno a nodir yn C.2 b uchod.

d) Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r gofynion hyn yn ychwanegol at ofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Rheoliadau sy'n berthnasol i'r Ddeddf a gofynion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

**C3. Independent Contractors and other types of Agency Workers ("the contractor") undertaking work on behalf of the Local Authority**

a) The work to be undertaken will be risk assessed (as for employed staff see C.1.a) and the advertisement and contract of work will state whether a satisfactory standard or enhanced CRB check is required. The CRB check will not be more than 2 years old.

b) The contractor will produce an original CRB check and evidence as to identity (as set out in C.1.e above) for every person undertaking the work. Copies will be retained securely by the Directorate.

c) A contractor with a criminal history wishing to undertake work with vulnerable people will be subject to the same process as set out in C.2.b above.

d) For the avoidance of any doubt these requirements are in addition to the requirements of the Care Standards Act 2000 and Regulations there under and the requirements of the Care and Social Services Inspectorate Wales.

**C4. Aelodau Etholedig a Chyfetholedig o Gyngor Sir Ynys Môn**

a) Mae Aelodau Etholedig a Chyfetholedig yn

**C4. Elected and Co-Opted Members of Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council**

a)Elected and Co-Opted Members are an

elfen hanfodol o waith yr Awdurdod Lleol. Y nhw ydyw wyneb cyhoeddus yr Awdurdod Lleol ac maent yn ymgymryd â swyddogaethau hanfodol a sensitif ar Bwyllgorau, Panelau mewnol ac allanol a Chyrff eraill, er enghraifft, y Panel Rhiant Corfforaethol ac fel Llywodraethwyr Ysgol yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod Lleol ac unrhyw Brotocolau Rheolaeth Wleidyddol a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd. Mae hawl gan y cyhoedd ddisgwyl safon uchel o ymddygiad ganddynt yn eu bywydau personol a phreifat, a bydd y broses archwilio SCT yn sicrhau bod unrhyw berson na ddylai wneud gwaith sensitif yn cael ei adnabod mor fuan ag sy'n bosibl.

integral part of the Local Authority's work. They are the public face of the Local Authority and undertake vital and sensitive roles on Committees, internal and external Panels and other Bodies for example on the Corporate Parenting Panel and as School Governors in accordance with the Local Authority Constitution and any Political Management Protocols in force from time to time. The public are entitled to expect a high standard of behaviour from them both in their personal and private lives, the CRB vetting process will ensure that any person who ought not undertake sensitive work is identified at the earliest opportunity.

b) Bydd y rhybudd ar gyfer pob Etholiad a phecynnau gwybodaeth yr Aelodau Etholedig yn datgan bod rhaid cael gwiriadau SCT Uwch ar gyfer pob Aelod Etholedig o'r Awdurdod Lleol. Rhoddir gwybod i Aelodau Cyfetholedig y bydd raid iddynt gael yr un gwiriadau SCT ag Aelodau Etholedig.

b)Notification of each Election and Elected Members' information packs will state that Enhanced CRB checks are required for each Elected Member of the Local Authority.
Co-Opted Members will be informed that they will be required to undertake the same CRB checks as Elected Members.

c) O fewn mis o gael eu hethol neu o dderbyn enwebiad, bydd pob Aelod Etholedig a Chyfetholedig yn cwblhau ffurflen gais am wiriad SCT uwch ac yn cyflwyno'r gwaith papur cefnogol i brofi pwy ydynt.

c) Within 1 month of being elected or accepting nomination, each Elected and Co-Opted Member will complete an Enhanced CRB check Application form and produce the supporting paperwork as to identification.

d) Oni fydd yr aelodau yn cymryd rhan yn y broses wirio SCT neu os yw'r wybodaeth a ddatgelwyd yn y gwiriad SCT Uwch yn codi pryderon ynglŷn â'r Aelod, yna bydd y Swyddog Monitro, yn dilyn ymgynghori gyda'r Arweinydd Grŵp perthnasol (a Chadeirydd y Cyngor yn achos aelodau sydd ddim yn gysylltiedig ag unrhyw grŵp gwleidyddol ac aelodau Cyfetholedig):-

d) In the event of non-participation with the CRB Check process or if the information revealed in the Enhanced CRB check raises concerns about the Member then the Monitoring Officer will, following consultation with the relevant Group Leader (and the Chairman of the Council in relation to unaffiliated and Co-Opted members):-

i) Yn penderfynu a yw Aelod Etholedig neu Gyfetholedig yn addas i gael ei benodi i unrhyw swydd fewnol neu gorff allanol.

i)Determine whether an Elected or Co-Opted member is suitable to be appointed to any internal post or external body.

ii) Yn rhoi gwybod i'r Aelod am hynny ac os ydyw'r aelod eisoes mewn swydd neu'n gwasanaethu ar gorff allanol, yn gwahodd yr aelod i dynnu'n ôl o wasanaethu arnynt.

ii)Notify the Member accordingly, and if already in post or on an external body invite the Member to withdraw from serving them.

iii) Bydd methiant i gydymffurfio gyda phenderfyniad o'r fath yn gyfystyr â thorri polisi'r Cyngor a gall fod yn destun cwyn i'r Pwyllgor Safonau am fethu â chydymffurfio gyda pholisi'r

iii) Failure to comply with such determination will be in breach of Council policy and liable to be the subject of complaint to the Standards Committee for non-compliance with Council

Cyngor a rhoi gwybod am y penderfyniad i unrhyw gorff allanol.

Policy and notification of the determination to any external body.

e) Y Swyddog Monitro fydd yn dal yr holl wybodaeth ynghylch datgeliadau gwiriadau SCT.

e) All CRB check disclosure information will be held by the Monitoring Officer.

**C5. Gwirfoddolwyr sy'n ymgymryd â thasgau ar ran yr Awdurdod Lleol neu Gontractwyr Annibynnol.**

**C5. Volunteers who undertake tasks on behalf of the Local Authority or Independent Contractors.**

a) Diffinnir gwirfoddolwr ar safle gwe yr SCT fel:

*"a person who is engaged in any activity which involves spending time, unpaid (except for travelling and other approved out-of-pocket expenses), doing something which aims to benefit someone (individuals or groups) other than or in addition to close relatives."*

Bydd Cyfadrannau'n defnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad A ac yn cynnal asesiad risg ar bob cyfle gwirfoddol i benderfynu a oes angen gwiriadau SCT, ar be lefel a pha mor aml a chan bwy.

b) Bydd gwirfoddolwyr sydd â chyswllt uniongyrchol sylweddol gyda phobl fregus angen gwiriadau SCT Uwch, er enghraifft, gall y rhain gynnwys cymhorthydd dosbarth / gwarchodwyr ar dripiau ysgol neu bobl sy'n cynorthwyo gyda gweithgareddau hamdden. Ni ddylid drysu'r categori hwn o berson gyda'r teulu estynedig a chyfeillion sy'n gwneud trefniadau preifat.

a) A volunteer is defined on the CRB web site as:

"a person who is engaged in any activity which involves spending time, unpaid (except for travelling and other approved out-of-pocket expenses), doing something which aims to benefit someone (individuals or groups) other than or in addition to close relatives."

Directorates will use the checklist in Appendix A to risk assess every voluntary opportunity to determine whether, at what level, and at what frequency CRB checks will be undertaken and by whom.

b) Volunteers who have significant direct contact with vulnerable people will require Enhanced CRB checks, for example these include a classroom helper / chaperone on school trips or assists with leisure activities. This classification of person is not to be confused with extended family and friends who make private arrangements

**Atodiad A**

- Rhestr Wirio ar gyfer Asesu Risg - a oes angen gwiriad SCT? Os oes, a ddylai fod yn Wiriad Safonol neu'n Wiriad Uwch?

- A fydd y swydd yn cynnwys cyswllt un i un gyda phobl fregus (sylwer – mae'r diffiniad hwn yn cynnwys plant) p'un ai fel gweithwyr, cwsmeriaid, Aelodau Etholedig neu gleientiaid?

- A fydd y gwaith yn cynnwys gofalu'n rheolaidd am, goruchwylio, hyfforddi neu fod yn bennaf gyfrifol am bobl fregus?

- A yw'r swydd yn cynnwys cyswllt uniongyrchol gyda'r cyhoedd yn eu cartrefi e.e. cynnal a chadw tai?

- A yw natur y swydd yn cynnig cyfleon i ddeilydd y swydd droseddu neu ymddwyn yn amhriodol gyda phobl fregus? e.e. tywysyddion ar deithiau/tywysyddion ymwelwyr.

- A fydd y person yn cael neu a fedrir dehongli neu ystyried ei fod wedi cael dylanwad dros bolisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol sy'n gysylltiedig â phobl fregus?

- A fydd y person yn rhan neu a fedrir dehongli neu ystyried ei fod wedi bod yn rhan o wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau ar gyfer pobl fregus neu eu diogelwch?

**Os mai ydi/oes yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, yna mae angen gwiriad SCT.**

**I benderfynu ar lefel y gwiriad sydd ei angen, dylid ystyried y canlynol:**

- Pa lefel o oruchwyliaeth fydd yr unigolyn yn ei dderbyn?

**Appendix A**

- Risk Assessment Checklist – is a CRB check required? If so whether it is to be a Standard or Enhanced CRB check?

- Will the position involve one to one contact with vulnerable people (n.b this definition includes children) whether as employees, customers, Elected Members or as clients?

- Will the work involve regularly caring for, supervising, training or being in sole charge of vulnerable people?

- Does the position involve direct contact with the public in their homes e.g. housing maintenance?

- Does the nature of the job present opportunities for the post holder to offend or behave inappropriately when involved with vulnerable people?. e.g. tour/visitor guides.

- Will the person have, be held out to have, or likely to be considered to have influence over Local Authority policies and procedures which relate to vulnerable people?

- Will the person take part, be held out as , or likely to be considered to be taking part, in decisions regarding the services to, or safety of, vulnerable people?

**If the answer to any of the questions above is yes, then a CRB check is required.**

**To determine the level of check required the following should be taken into consideration.**

